MENTERA

**Teitl y Swydd:** Rheolwr Datblygu Milfeddygol (0.55 FTE)
**Prosiect:** Arwain DGC
**Lleoliad:** Unrhyw swyddfa Mentera neu gweithio o adref
**Rheolwr Llinell:** Pennaeth Gwasanaethau Iechyd Anifeiliaid
**Cyflog:** £55,292 pro rata

---

**Arwain DGC - Cefndir**

Nod y prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu drwy Lywodraeth Cymru, yw mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid a'r amgylchedd. Mae'r prosiect yn unol â nodau ac amcanion Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd: Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd i Gymru 2019-2024, a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU.

Bydd y prosiect yn cael ei gynnal gan y partneriaid canlynol — Mentera, WLBP (Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru), Prifysgol Aberystwyth — Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth, Prifysgol Bryste, Iechyd Da a Milfeddygon Gogledd Cymru. Bydd y prosiect yn cael ei arwain a'i reoli gan Mentera.

Mae'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol wedi bod yn arwain ar ddefnydd gwrthficrobaidd cyfrifol mewn practisau milfeddygol yng Nghymru ers 2019 ac mae'n elfen graidd o brosiect Arwain DGC. Mae'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol wedi datblygu cyfres o ganllawiau triniaeth a phresgripsiynu ar y cyd ar gyfer prif glefydau anifeiliaid fferm, ynghyd â chod ymddygiad presgripsiynu gwirfoddol ar gyfer practisau milfeddygol anifeiliaid fferm. Mae cyfranogwyr rhwydwaith PPM hefyd yn gweithredu mentrau stiwardiaeth gwrthfiotig hunan-gyfeiriedig o fewn amgylcheddau eu practis eu hunain, gan gynrychioli'r Rhwydwaith o fewn eu harferion a gweithredu fel llais eu practis gyda'r Rhwydwaith.

**Amcanion y Rôl**

- Arwain y Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol cenedlaethol ac allbynnau cysylltiedig ar gyfer prosiect Arwain DGC.
- Nodi a thargedu cyfleoedd ariannu o fewn gwasanaethau iechyd anifeiliaid a chefnogi ceisiadau am gyllid ac ehangu ar y potensial ar gyfer cyfleoedd ariannu ymchwil ar y cyd â phartneriaid academaidd.
- Datblygu a chynnal cydweithrediadau a rhwydweithiau â rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau iechyd anifeiliaid a milfeddygol yng Nghymru a'r DU ehangach.
- Datblygu a chynnal perthynas waith gref ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru, a chleientiaid posibl eraill gan gynnwys APHA
- Darparu arbenigedd ar ymchwil, deddfwriaeth a pholisi milfeddygol, iechyd anifeiliaid a gwyddonol.
- Arwain staff a chefnogi'r Pennaeth Iechyd Anifeiliaid yn ôl yr angen i'r nodau uchod a pharhau i ddatblygu'r gwasanaethau iechyd anifeiliaid o fewn Mentera.
- Parhau i dyfu enw da Mentera am ragoriaeth ym maes iechyd anifeiliaid yng Nghymru.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Arwain ar gyflawni allbynnau allweddol yn ymwneud â'r Rhwydwaith Pencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol ar gyfer prosiect Arwain DGC.

- Cefnogi gwasanaethau iechyd anifeiliaid Mentera a mentrau ehangach i barhau â thwf a datblygiad yn y sector hwn
- Nodi amcanion iechyd anifeiliaid a milfeddygol a ffynonellau ariannu posibl yn annibynnol a chyd-ysgrifennu cynigion am gyllid.
- Datblygu cydweithrediadau â sefydliadau academaidd ym maes iechyd anifeiliaid.
- Arwain a rheoli tîm PPM Arwain a'r Rhwydwaith PPM.
- Arwain y gwaith o ledaenu canlyniadau Arwain, yn enwedig y rhwydwaith PPM, gan gynnwys canfyddiadau ymchwil a chyflwyno mewn cynadleddau.
- Sicrhau trylwyredd deallusol a glynu wrth safonau moesegol yn y prosiectau y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Cefnogi a mentora cydweithwyr i ddehongli data, rheoli blaenoriaethau cystadleuol, a datblygu eu sgiliau.
- Monitro a, lle bo'n briodol, rheoli adnoddau'r prosiect (e.e. cyllideb, amser, deunyddiau, offer) yn effeithiol.
- Chwarae rôl arweinyddiaeth effeithiol wrth fentora cydweithwyr a chydlynu gwaith staff eraill, gan gynnwys partneriaid prosiect ehangach yn ôl yr angen.
- Cymryd rhai cyfrifoldebau ehangach penodol o fewn Mentera i gefnogi darparu gwasanaethau iechyd anifeiliaid.
- Cyfrannu'n weithredol at y tîm, gan gymryd perchnogaeth o ddyletswyddau gweinyddol a dangos etheg gwaith gref. Arwain rôl weithredol wrth ymgysylltu â rhwydweithiau rhanddeiliaid, datblygu cysylltiadau â chyrff allanol gan gynnwys cyrff ariannu, a chwilio'n weithredol am gyfleoedd ar gyfer prosiectau rhyngddisgyblaethol a'u datblygu.
- Rheoli'r adolygiad ac asesiad effaith o waith eich tîm. Lle bo'n briodol, cymryd rôl arweiniol yn llwyddiannus wrth ddatblygu cysylltiadau entrepreneuraidd neu gydweithredol â sefydliadau allanol gan gynnwys sefydliadau academaidd.
- Cymryd rhan weithredol yn natblygiad gwasanaethau iechyd anifeiliaid, gyda ffocws ar wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu a chynyddu'r effaith ar iechyd anifeiliaid yng Nghymru.
- Cymryd rhan weithredol mewn cyfrannu at enw da'r cwmni am gyflawni gwaith o ansawdd, gwerth ac effaith eithriadol.

**Sgiliau a Phrofiad**

**Hanfodol**

- Gradd filfeddygol sy'n gysylltiedig ag iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i fod yn aelod o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon Milfeddygol.
- Wedi'i gofrestru i ymarfer fel Aelod o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon Milfeddygol (MRCVS).
- Profiad a gwybodaeth helaeth am waith milfeddygol yng Nghymru.
- Profiad o weithio yn y byd academaidd yn y DU
- Profiad o reoli prosiectau, rheoli staff a darparu arweinyddiaeth effeithiol i dimau prosiect.
- Profiad o reoli cyllidebau a chyflawni prosiectau ar gyflymder, ar amser ac o fewn y gyllideb.
- Sgiliau ysgrifennu a chyflwyno cryf, gan ddangos tystiolaeth o gyfleu gwybodaeth gymhleth yn eithriadol i gynulleidfa ymchwil, diwydiant, neu leyg.
- Tystiolaeth o rolau arweinyddiaeth.
- Arbenigedd mewn ymchwil, deddfwriaeth a pholisi milfeddygol, iechyd anifeiliaid a gwyddonol sy'n berthnasol i iechyd anifeiliaid, yn enwedig ymwrthedd gwrthficrobaidd yng Nghymru.
- Dealltwriaeth o ymchwil ansoddol, damcaniaeth Newid Ymddygiad Dynol a datblygu ymyriadau iechyd anifeiliaid sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Sgiliau TG o safon uwch gan gynnwys pecynnau ymchwil a dadansoddi data uwch
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Yn gallu gwneud penderfyniadau anodd ac amserol er budd y busnes a/neu'r gwasanaeth, gan gynnwys codi pryderon priodol yn ymwneud â chyflawni'r gwasanaeth, cyllidebau a staff/is-gontractwyr.

**Dymunol**

- Siaradwr Cymraeg rhugl, yn byw yng Nghymru.
- PhD mewn Gwyddor Filfeddygol neu bwnc sy'n gysylltiedig ag Iechyd Anifeiliaid
- Dadansoddi data ansoddol a meintiol

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Os ydych chi am gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon, cysylltwch â Dewi Hughes ar 07939 975 681

**Mae gofynion y swydd hon yn golygu ei bod wedi ei chategoreiddio fel a ganlyn:**

Trwydded yrru a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes:

- Diangen
- Dymunol
- **Hanfodol ✓**
-

Gallu yn yr iaith Gymraeg: **Dymunol**

- Gwrando/Siarad: Lefel 2
- Darllen/Deall: Lefel 1
- Ysgrifennu: Lefel 0

*Mae Mentera yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith i bob aelod o staff sy'n awyddus i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg*.

**Sut i ymgeisio**

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal a'u dychwelyd i swyddi@mentera.cymru erbyn 10 yb, dydd Llun, 27/10/2025

**Cyfweliadau**

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yn swyddfa Aberystwyth yn ystod sy'n cychwyn 03/11/2025. Os nad yw hyn yn gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle. Rydym o'r farn y gellir gwneud hyn drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu neu oedran. Er mwyn cefnogi ein cyflogeion i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd personol, am rhan fwyaf o'n swyddi byddwn yn ystyried cynigion i weithio'n hyblyg neu rannu'r swydd.